**"A"**

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 10fed Gorffennaf 2023**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Iwan J. Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Michael Strain, Efan Thomas, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

## 35. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Glenys Williams oedd wedi derbyn llawdriniaeth yn ystod y dyddiau diwethaf. Yr un modd dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Michael Strain yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn Eisteddfod Llyn ac Eifionydd oedd i'w chynnal ym Moduan yn ystod yr wythnosau nesaf.

## 36. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 37. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed MEHEFIN, 2023

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Mehefin 2023.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Iwan James Williams gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 23 Cadarnhau Cofnodion**

**eitem (a) – Archwilio'r Cyfrifon**

**Adroddodd** y Clarc ar y trefniadau i anfon y dogfennau (dogfennau gwreiddiol yn unig) at Archwilio Cymru – y dewis oedd mynd a'r dogfennau i Abergele ar ddyddiau penodol neu eu hanfon i Gaerdydd. Er byddai anfon oll o'r dogfennau drwy ddosbarthiad arbennig (special delivery) erbyn un y diwrnod canlynol yn gostus teimlai'r Clarc mai dyma'r ffordd rataf i'w hanfon. Cytunwyd â hyn.

Gan fod y Cyngor yn wynebu archwiliad llawn eleni 'roedd y gofynion am ddogfennau a gwybodaeth yn enfawr a llawer iawn o waith i sicrhau fod popeth wedi ei gyflawni – dywedodd y Clarc ei bod wedi rhoi o'i gorau er sicrhau hyn ac ymddiheurodd ymlaen llaw os byddant yn dod yn ôl am fwy o wybodaeth.

**Eitem (b) Cronfa Cofid**

**Bellach** roedd y tybiau a'r blodau wedi eu harchebu a'r Cynghorydd Iwan James Williams wedi bod yn Nhyddyn Sachau yn eu nôl ac 'roeddynt yn barod i'w rhoi allan yn y gwahanol leoliadau yn dilyn y Cyngor heno. Er gofalu am y tybiau a'u dyfrhau addawodd Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai'n edrych ar ôl y blodau ar Gomin Bryncroes; Y Cynghorydd Siôn Williams – Pedair Croeslon; Y Cynghorydd Carys Williams a'r ferch Elin – ger yr arwyddbost yn Sarn Mellteyrn; Y Cynghordydd Iwan James Williams – ger yr arwyddbost Penygroeslon yn Y Fantol. Gyda thwb blodau ym Motwnog penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Carys H. Evans edrych ar ôl hwn.

**Diolchwyd** i'r Cynghorydd Iwan James Williams am gyrchu'r tybiau a hwyluso'r gwaith o'u gosod yn y gwahanol leoliadau.

**(ch) Cynigion ar gyfer cyfarfod cyffreidnol 2023 Un Llais Cymru**

**Anfonwyd** y cynnig a ganlyn ar gyfer y cyfarfod cyffredinol Un Llais Cymru

"Oherwydd y pwysau gwaith cynyddol sydd ar Glercod Cynghorau Cymdeithas ar hyn o bryd a deunyddiau a rheolau newydd yn cael eu cyflwyno yn barhaus, teimlai'r aelodau fod yr holl waith a ddisgwylir i Glercod ei wneud am bitw o gyflog yn sarhaus. Oherwydd hyn gwelir nifer o gynghorau yn methu dennu clercod pan mae'r clerc presennol yn ymddeol, a'r gymuned yn dioddef oherwydd hynny. Oni ddylai Un Llais Cymru ystyried pa gamau ddylid ei gymryd er sicrhau tegwch i glercod."

Derbyniwyd cydnabyddiaeth ar 20fed Mehefin y byddai'r cynnig yn cael ei roi gerbron y pwyllgor ac y byddant mewn cysylltiad pellach â'r Cyngor ynglyn a'r penderfyniad.

Nodwyd yr uchod.

**(b) Eitem 29 – Model o Reolau Sefydlog 2023 (Cymru)**

**Dosbarthwyd** copi o'r model diweddaraf o Reolau Sefydlog 2023 (Cymru) i'r aelodau. Deallwyd nad oes raid mabwysiadu'r rhain yn syth os 'rydym wedi mabwysiadu y rheolau cynt yn ddiweddar – gwnaeth y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Mai fabwysiadu'r rheolau sefydlog cyfredol.

Dosberthir copi o'r rheolau newydd i'r aelodau oedd yn absennol yn y cyfarfod mis Medi a chaiff y cyfryw eu hysytyried yn hwyrach yn y flwyddyn.

**(c) Eitem 30 – Mynwent Llandegwnning**

**Adroddodd** y Clarc ei bod bellach wedi cael cysylltiad gyda Ms. Julie Morris, mam y diweddar Emma Louise Morris, ynglyn a gosod y fainc yn y Fynwent. 'Roedd yn awyddus i symud ymlaen a bydd trefniadau yn cael eu gwneud maes o law i'r Cadeirydd a'r Clarc gyfarfod Ms. Morris yn y fynwent.

## 38. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais yn ystod y mis.

## 39. CAIS AM GYFRANIAD ARIANNOL

**Cyflwynwyd** cais ar ran Ymddiriedolaeth Capel Newydd Nanhoron.
**Penderfywyd** cyfrannu £100 (200795).

## 39. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Tynnwyd** sylw fod y trigolion oedd yn defnyddio'r lloches bws yn teimlo'n bryderus nad oedd y lloches yn weladwy i drafnidiaeth ac felly 'roeddynt yn ofnus am eu diogelwch eu hunain.

**Penderfynwyd**

(a) Gofyn i Mr. Richard Parry, Crugeran, a fyddai ganddo wrthwynebiad I'r Cyngor farbio o amgylch y lloches.
(b) Os byddai'r ymateb yn gadarnhaol, yna gofyn i Andrew Pozzi wneud y gwaith.
(c) Gwneud ymholiadau gyda'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd am gael amlinelliad/bocs ar y ffordd yn dangos lleoliad y lloches.

## 40. AWDURDOD I DALU

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad a ganlyn:
Meithrinfa Tyddyn Sachau (tybiau a blodau) £375.00 (200794)

## 41. CYRSIAU UN LLAIS CYMRU

**Rhanwyd** restr o gyrsiau gynigir gan Un Llais Cymru.

Ei adael ar y bwrdd am y tro

42. **HAWLIAU MIS AWST**

**Yn unol â'r arferiad penderfynwyd awdurdodi:**

Y Cadeirydd i gadarnhau unrhyw daliad ddaw yn ddyledus yn ystod mis Awst

Y Cadeirydd ac aelodau'r Ward berthnasol benderfynu ar unrhyw gais cynllunio ddaw i law yn ystod y cyfnod.